


Rhieni!... A oes gennych blentyn
disglair sy'n serennu mewn
celf a chreffft?

Dosbarthiadau Meistri Celf i Blant Mwy Abl a Thalentog

Mae **Criw Celf** yn cynnig rhaglen o hyfforddiant arbenigol i blant sy'n fwy abl a thalentog ym maes celf weledol. Drwy ein rhaglen o ddsbarthiadau meistri arbennig, gydag artistiaid proffesiynol, mae aelodau **Criw Celf** yn cael ...

- Mynediad i addysg celf ychwanegol, dwys o ansawdd uchel
- Meithrin a datblygu sgiliau a dealltwriaeth o gelf weledol a chreffft
- Dysgu am yrfaedd ym maes celf
- Cydweithio ag artistiaid i ddatblygu eu potential a'u gallu
- Arddangos eu gwaith celf mewn oriel broffesiynol



Enwebu eich plentyn...

Fel rhiant gallwch enwebu eich plentyn os ydynt yn cychwyn Blwyddyn 7 ym Medi 2016 i ymaelodi â'r rhaglen hyfforddiant cyffroes hwn. Gyrrwch ddetholiad o'u gwaith celf atom er ystyriaeth erbyn **10yb 19 o Awst 2016**, darlennwch am yr hyn sydd angen ei gyflwyno ar y dudalen nesaf...

DYDDIAD CAU!
19 Awst

Cyflwyno gwaith celf...

Postiwch y canlynol i'r cyfeiriad isod...

- Hunan bortread 2D neu 3D wedi ei greu gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau (2D dim mwy na maint A3).
- Darlun 2D o'r olygfa drwy unrhyw ffenestr gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau (dim mwy na maint A3).
- Paragraff byr yn egluro pam yr hoffent ymaelodi â Chriw Celf (dim mwy na 50 gair).

Gwnewch yn siŵr bod enw ac oed y plentyn, enw'r ysgol a chyfeiriad cartref a rhif ffôn cartref y plentyn ar gefn pob darn o waith. Gallwch lawr-lwytho labeli oddi ar ein gwefan os yr hoffech. Cofiwch mai gallu naturiol y plentyn yr ydym angen ei weld wrth asesu'r gwaith celf. Mae'n hanfodol bwysig nad yw'r plentyn yn derbyn cymorth oedolyn nag artist i greu eu gwaith.

Bydd panel o artistiaid yn dethol y plant llwyddiannus ac fe fyddwn yn eu gwahodd i fynychu rhaglen o ddsbarthiadau meistri fydd yn cychwyn ym mis Medi/Hydref 2016; cychwyn da i'w blwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd!

Cyfeiriad...

Criw Celf Gwynedd, Archifdy Caernarfon,
Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon,
Gwynedd. LL55 1SH

Rob Jones: 07711 269 202

robertowenjones11@gmail.com

**Dyddiad Cau
19 Awst**

**Ffi ymaelodi i rai
llwyddiannus £35**



www.criwcelf.co.uk